Ein Treftadaeth
Our Heritage

# Dewch i archwilio treftadaeth Dolgellau yma!

Ceir treftadaeth gyfoethog ym mhob twll a chornel o dref farchnad brydferth Dolgellau. Hi oedd canolfan brysur yr hen Sir Feirionnydd ers talwm ac mae'r diwydiannau aur, gwlân ac argraffu wedi gadael eu hôl yma. Saif mwy na 180 adeilad rhestredig yn strydoedd cul Dolgellau, o felinau a chapeli i gartrefi cymuned arloesol y Crynwyr. Ewch am dro o gwmpas yr ardal a dewch o hyd i etifeddiaeth gyfoethog tywysogion canoloesol a mynachod Sistersaidd.

**Ydych chi'n un am antur? Defnyddiwch y sgrin gyffwrdd i ganfod mwy o safleoedd treftadaeth diddorol ledled gogledd Cymru.**

# Explore Dolgellau's heritage here!

The picturesque market town of Dolgellau has a rich heritage just waiting to be explored. Once the bustling centre of the old county of Merionethshire, the gold, wool, and printing industries have all left their mark here. More than 180 listed buildings line Dolgellau's narrow streets, from mills and chapels to the homes of the town's pioneering Quaker community. Venture into the surrounding area and discover the rich legacy of medieval princes and Cistercian monks.

**Feeling adventurous? Use the touch- screen to discover more fascinating heritage sites across north Wales.**



© Hawlfraint y Goron: Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
© Crown copyright: Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales

## Gwaith aur Cefn Coch, Ganllwyd
## Cefn Coch gold mine, Ganllwyd

Mae gwaith aur Cefn Coch wedi'i leoli yn uchel i'r gorllewin o Ganllwyd. Dewch â'ch esgidiau cerdded i gael ymweld â'r safle hwn yn yr ucheldir anghysbell. Yng nghanol y 19eg ganrif, roedd yn adnabyddus fel un o fwyngloddiau cyfoethocaf yr ardal. Mae amryw o adeiladau a nodweddion y ganolfan wedi goroesi, sy'n cynnwys yr enghraifft fwyaf cyflawn sydd wedi goroesi o felin yn y rhanbarth a barics y gweithwyr. Edrychwch am y gefail fechan, tramffordd oedd yn cludo'r mwyn o'r mwynglawdd i'r felin.

Cefn Coch gold mine is high in the hills west of Ganllwyd. Bring your boots for a visit to this remote upland site. It was renowned as one of the area's richest mines in the mid 19th century. Various features of the complex survive, including the region's most complete example of a mill and worker's barracks. Look out for the small smithy, and the tramway that transported ore to the mill from the mine.



© Hawlfraint y Goron: Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
© Crown copyright: Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales

## Gwaith aur Clogau ym Mhontddu
## Clogau gold mine at Bontddu

Mwynhewch olygfeydd mynyddig gwefreiddiol o fwyngloddiau aur Clogau a oedd y rhai mwyaf yn yr ardal ar un adeg. Gwaith copr oedd yma yn wreiddiol a daethpwyd o hyd i aur yma drwy ddamwain yn 1854. Cafodd 78,000 owns o aur ei echdynnu rhwng 1862 a 1911. Mae parcio ar gael ym mhentref Bontddu a gellir dod o hyd i lwybrau cerdded yn www.eryri-npa.gov.uk.

Enjoy breathtaking mountain views from Clogau gold mines, once the biggest in the area. Originally a copper mine, gold was found by accident in 1854. A staggering 78,000 ounces of gold were extracted between 1862 and 1911. Parking is available at Bontddu village and walking routes can be found at www.eryri-npa.gov.uk.




## Caer Rufeinig Tomen y Mur
## Tomen y Mur Roman Fort

Dilynwch y llwybr ar y tir fferm o amgylch olion caer Rufeinig Tomen y Mur. Chwiliwch am olion yr amffitheatr fechan, y tŷ baddon a'r maes gorymdeithio. Oherwydd ei fod yn llecyn strategol, adeiladodd y Normaniaid gastell gyda phridd a choed tu mewn i'r gaer wag yn ystod ymgyrchoedd yn erbyn Tywysogion Gwynedd yn yr 11eg ganrif.

Follow a farmland trail around the remains of Tomen y Mur Roman fort. Look out for traces of the small amphitheatre, bathhouse and parade ground. A strategic spot, the Normans built an earth and timber castle inside the abandoned fort during campaigns against the Princes of Gwynedd in the 11th century.



© Hawlfraint Ein Treftadaeth
© Copyright Our Heritage



© Hawlfraint Kiran Ridley - Partneriaid Prosiect Tywysogion Gwynedd
© Copyright Kiran Ridley - Princes of Gwynedd Project Partners

## Abaty Cymer / Cymer Abbey

Dewch o hyd i'r mynachdy Sistersaidd ble roedd mynachod yn pysgota am eog ers talwm ac yn magu ceffylau i Llywelyn ab Iorwerth (Llywelyn Fawr).

Discover the Cistercian monastery where monks once fished for salmon and bred horses for Llywelyn ab Iorwerth (Llywelyn 'the Great').



© Hawlfraint PhotolibraryWales.com - Robin Goodlad
© Copyright PhotolibraryWales.com - Robin Goodlad

## Llwybr Clywedog, Brithdir
## Torrent Walk, Brithdir

Ewch am dro mewn amgylchedd ysblennydd ar hyd llwybr cylchol ger Afon Clywedog. Yn wreiddiol, crëwyd y llwybr gan Thomas Payne a'i fab yn y 19eg ganrif er mwyn ehangu gerddi plasty Plas Caerynwch. Gellir ymweld ag olion ffwrnais haearn Dolgun a sefydlwyd gan y Crynwr, Abraham Darby ym 1713 fel rhan o Lwybr Clywedog. Bu Crynwyr o ffermydd Dolgun a Dolserau yn mwyngloddio'r mwyn haearn ar Dir Stent ar droed Cader Idris.

Take a walk in spectacular surroundings along a circular route by the River Clywedog . The path was originally laid out by Thomas Payne and his son in the 19th century to extend the gardens of the Plas Caerynwch mansion. Remnants of Dolgun iron furnace, set up by Quaker Abraham Darby in 1713 can be visited as part of the Torrent Walk (Llwybr Clywedog). Quakers from Dolgun and Dolserau farms mined the iron ore on Tir Stent, in the foothills of Cader Idris.

## Capeli'r Anghydffurfwyr – Salem, Tabernacl, Juda ac Ebeneser
## Non-conformist chapels – Salem, Tabernacl, Juda & Ebenezer

Ewch i ymweld â phedwar o gapeli cyfareddol yr Anghydffurfwyr yn Nolgellau. Y Santes Fair yw eglwys hynaf Dolgellau, a cheir y cofnod cyntaf ohoni ym 1253. Mae'r eglwys bresennol, gyda'i phensaernïaeth Sioraidd a'i gwaith llechi, yn dyddio nôl i 1716.

Explore four of Dolgellau's charming non-conformist chapels. Dolgellau's oldest church is St Mary's, first recorded in 1253. The present church, with its elegant Georgian architecture and slate masonry, dates to 1716.



© Hawlfraint Ein Treftadaeth
© Copyright Our Heritage



© Hawlfraint Ein Treftadaeth
© Copyright Our Heritage

## Ffynnon Fair, Dolgellau

Ewch am dro o'r Stryd Fawr (ar hyd Ffordd y Gader a Tylau Mair) i ddarganfod Ffynnon Fair, ffynnon hynafol heddychlon. Mae'n bosib ei bod yn dyddio nôl i'r cyfnod Rhufeinig a bu'n le cysegredig ers canrifoedd, yn enwedig yn ystod y canoloesoedd pan oedd pobl yn yfed ei dŵr i wella salwch.

Set off on foot from Eldon Square (along Cader Road and Love Lane) to find Ffynnon Fair, a tranquil ancient well. Possibly dating to the Roman period, it has been a sacred place for centuries, especially during medieval times when people drank its waters to cure illness.

## Bryngaer Moel Offrwm, Dolgellau
## Moel Offrwm hillfort, Dolgellau

Dyma gadarnle hynafol gyda golygfeydd ysblennydd o aber Mawddach, ac mewn gwirionedd mae Moel Offrwm yn ddwy fryngaer mewn un. Chwiliwch am olion o gytiau crwn y gaer uchaf o'r Oes Haearn ac am amddiffynfeydd cadarn y gaer fach isaf a wnaed o waliau cerrig (a ddefnyddiwyd yng nghyfnod y Rhufeiniaid o bosib).

Am fanylion mynediad, cysylltwch â Warden lleol Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar parc@eryri-npa.gov.uk

An ancient stronghold with spectacular views of the Mawddach estuary, Moel Offrwm is actually two hillforts in one. Look out for the remains of roundhouses in the Iron Age upper fort, and for the stout stone wall defences of the smaller lower fort (which may have been used into the Roman period).

Contact the Snowdonia National Park Authority local Warden for access details on parc@eryri-npa.gov.uk



© Hawlfraint y Goron: CBHC
© Crown Copyright: RCAHMW

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

PARC CENEDLAETHOL ERYRI
SNOWDONIA NATIONAL PARK

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

Cadw

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

ERDF
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
**Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich dyfodol**
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
**Europe & Wales: Investing in your future**
European Regional Development Fund